Roedd nos Lun, Ebrill 24 yn noson fawr yn Ysgol Penrhyn-coch, oherwydd noson honno cynhaliwyd Swper Dathlu yno. Achlysur y dathlu oedd llwyddiant ysgubol tîm rygbi'r Ysgol eleni. Ar ôl ennill pencampwriaeth yr ysgolion llai (h.y. ysgolion a llai na 75 o blant ynddynt) aethant ymlaen i'r gystadleuaeth ar gyfer ysgolion 'mawr' y cylch - ac ennill y dydd yno hefyd! Teimlwyd fod cyflwyno'r tystysgrifau i aelodau'r tîm yn haeddu tipyn o seremoni o'i gwmpas, ac felly o dan gyfarwyddwyd y Prifathro, Mr R.T. Evans ac aelodau eraill o'i staff trefnwyd swper yn yr ysgol, a chafwyd noson ddymunol iawn yng nghwmni aelodau'r tîm, ynghŷd â'u rhieni a'u cyfeillion. Yn ogystal â thystysgrifau, cyflwynwyd tlws hardd a'u henwau wedi eu cerfio arnynt, i bob chwaraewr (anrheg bersonol gan y Prifathro), a mawr oedd eu hedmygedd ohonynt. Yn ei anerchiad cyn y cyflwyno, cyfeiriodd Mr R.T.Evans at yr ysbryd rhagorol a fodolai ymhlith aelodau'r tîm, a chanmolodd hwynt am eu chwarae glân a medrus bob amser. Ni fyddai ef, meddai, yn synnu gweld rhai ohonynt mewn crysau cochion ar y Maes Cenedlaethol ymhen ychydig o amser. Ategwyd ei eiriau gan aelod arall o staff yr ysgol, eu hyfforddwr, Mr Iwan Jones, a thalodd deyrnged hefyd i'r rhieni am eu help a'u gefnogaeth. Siaradwyd ar ran y rhieni gan Mr Elfed Evans, Mr Glyn Collins, Mrs S. Hutchinson a Mrs P.Morgan, a chyfeiriodd pob un at haelioni'r Prifathro yn darparu'r wledd a'r tlysau. Diolchwyd ar ran y tîm gan eu capten, Graham Thomas. Rhai o ferched hŷn yr ysgol, o dan ofal Mrs E.A.Evans, a weinai wrth y byrddau. Llongyfarchiadau gwresog i'r tîm ar ei llwyddiant. Bydd y *Tincer* yn edrych ymlaen at gael cofnodi campau pellach o'i eiddo y tymor nesaf.

[redacted]

Y mae'r bechgyn wedi bod yn hynod llwyddiannus ym myd y bel droed hefyd ac wedi cyrraedd y rownd derfynol yn erbyn Ysgol Plas-crug trwy guro'r Gwylliaid o Rydypennau yn y rownd gyn-derfynol. Rhaid llongyfarch Graham Thomas ar gael ei ddewis yn un o bedwar o Geredigion i chwarae yng ngharfan peldroedwyr Dyfed ac y mae lle i gredu y bydd Graham yn cynrychioli Dyfed yn Wrecsam ganol y mis hwn.

Nos Wener o'r blaen cafwyd Noson Agored pryd y daeth nifer dda o rieni i weld gwaith y plant ac i drafod gwahanol bwyntiau gan yr athrawon. Cafwyd noson llwyddiannus iawn. Paratowyd lluniaeth gan y gwragedd.

Dymunwn yn dda i Mrs P.M.Evans yr ofalwraig hanner dydd sydd wedi bod dan driniaeth yn yr ysbyty ac ar yr un pryd croesawn Mrs G. Randall sydd yma dros dro.